HSCCLD427

# Arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o gynghori a chefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Bydd gofyn i chi gynllunio a hybu ymyriadau sydd wedi’u cynllunio i gwrdd ag anghenion plant sydd angen cymorth ychwanegol. Bydd gofyn i chi hefyd arwain y gwaith o ddatblygu’r gwasanaeth yn y lleoliadau yn yr ardal leol rydych chi’n gyfrifol amdani.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi strategaethau ar waith i gefnogi a chynghori ymarferwyr ynglŷn â chynnydd plant
2. gweithio gydag ymarferwyr i feithrin perthynas â theuluoedd
3. gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o asiantaethau
4. helpu ymarferwyr i nodi plant a allai fod angen cymorth ychwanegol
5. arwain ymarferwyr i rannu pryderon am blant gyda theuluoedd
6. cefnogi ymarferwyr i weithio ar y cyd â theuluoedd i gasglu gwybodaeth am ddewisiadau ac anghenion plant
7. arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau personol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, gan weithio’n agos ag ymarferwyr a theuluoedd
8. datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer monitro a gwerthuso cynlluniau personol
9. defnyddio cyllidebau ac adnoddau i fanteisio i’r eithaf ar y cymorth a gynigir i blant ag anghenion ychwanegol
10. rhannu gwybodaeth ag eraill i lywio eu gwaith nhw a'ch gwaith
11. cefnogi ymarferwyr i baratoi plant ar gyfer symud i leoliadau eraill
12. cynnig cefnogaeth a chyngor i ymarferwyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd gyda phlant ag anghenion ychwanegol
13. hybu amgylcheddau diogel lle gall ymarferwyr drafod agweddau ar eu gwaith yn gyfrinachol ag eraill
14. datblygu polisïau ar gyfer cynhwysiant a mynediad ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
15. blaenoriaethu ac ymateb i ymarferwyr sydd angen cefnogaeth
16. sicrhau bod gweithdrefnau atgyfeirio yn glir, a bod cofnodion yn drefnus ac yn berthnasol
17. modelu ac annog rhyngweithiadau ymatebol sy'n meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant a theuluoedd
18. cydnabod cyfraniadau ymarferwyr wrth weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol
19. gweithio gydag eraill i ddarparu pecynnau cefnogaeth addas ar gyfer plant a theuluoedd
20. cyfrannu at y gwaith o ddatblygu adnoddau a gwasanaethau lleol

21. cynnal perthynas gadarnhaol a dulliau cyfathrebu effeithiol gydag ymarferwyr
22. datblygu a rhannu arferion gorau wrth weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol
23. nodi cyfleoedd datblygu proffesiynol addas ar gyfer ymarferwyr er mwyn gwella’r ffordd maen nhw’n ymarfer
24. cefnogi ymarferwyr i gael mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu
25. gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i blant ag anghenion ychwanegol
26. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol
27. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cefnogi â’r newidiadau y gallai plant ag anghenion ychwanegol eu profi
2. egwyddorion cynhwysiant ac integreiddio a sut maen nhw’n cael eu defnyddio o dan y canllawiau cyfredol
3. y fframwaith asesu a ddefnyddir yn eich ardal leol, gan gynnwys ei egwyddorion, ymyriadau cysylltiedig, a sut mae’n berthnasol i blant ag anghenion ychwanegol
4. ble i ddod o hyd i wybodaeth am anghenion ychwanegol
5. yr adnoddau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd ar gael i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol
6. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma yn y ddarpariaeth i blant ag anghenion ychwanegol
7. y camau i'w cymryd os oes gennych bryderon am ddatblygiad plant
8. nodau dysgu a datblygu realistig ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygiad plant
10. dylanwad diwylliant a chefndir ar blant ag anghenion ychwanegol
11. sut mae cynorthwyo ymarferwyr â strategaethau ac adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i blant ag anghenion ychwanegol
12. sut mae cynorthwyo ymarferwyr mewn sefyllfaoedd heriol
13. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
14. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol
15. sut mae datblygu cwricwla gwahaniaethol, yn seiliedig ar anghenion unigol plant
16. y gwahaniaeth rhwng darparu dysgu wedi'i bersonoli a chwricwlwm gwahaniaethol
17. yr amrywiaeth o gymhorthion, adnoddau, dyfeisiau ac adnoddau digidol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, a sut i gael gafael arnynt
18. sut mae sicrhau bod eich sgiliau, eich gwybodaeth a’ch cyngor ar gael i ymarferwyr
19. y ffynonellau o gymorth personol a phroffesiynol sydd ar gael i chi
20. manteision gweithio fel rhan o dîm integredig
21. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a strategaethau i

ddatblygu’r partneriaethau hyn
22. rôl y gymuned leol o ran rhoi cefnogaeth a darparu gwybodaeth
23. sut a pham y dylid cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau er mwyn dylanwadu ar newid
24. egwyddorion personoli mewn gofal, a sut i reoli hyn yn y gweithle
25. pwysigrwydd eiriolaeth o ran hawliau a chyfranogiad plant
26. sut mae gwerthuso gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
27. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol
28. theorïau sy'n berthnasol i arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol
29. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol
30. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol
31. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol, a sut i fynd i'r afael â hyn
32. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD427

Arwain y gwaith o gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD427 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cefnogi Ymarferwyr, Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Ychwanegol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |